



RHESTR O WELLIANNAU WEDI'U DIDIOLI MARSHALLED LIST OF AMENDMENTS

Mesur Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau)
Proposed National Assembly for Wales (Remuneration) Measure
Mae'r gwelliannau â * ar eu bwys yn rhai newydd neu'n rhai sydd wedi'u haddasu
Amendments marked * are new or have been altered

Caiff y Mesur ei ystyried yn y drefn a ganlyn –
The Measure will be considered in the following order –

Sections 1-3	Adrannau 1-3
Schedule 1	Atodlen 1
Section 4	Adran 4
Schedule 2	Atodlen 2
Sections 5-13	Adrannau 5-13
Schedule 3	Atodlen 3
Sections 14-16	Adrannau 14-16
New Sections	Adrannau Newydd
Long Title	Teitl Hir

Dafydd Elis -Thomas

Section 1, page 1, line 14, after '(5)', insert 'and to section () (2)',.

Adran 1, tudalen 1, llinell 15, ar ôl '(5)', rhwch 'ac i adran () (2)',.

Dafydd Elis -Thomas

8

Schedule 1, page 7, after line 10, insert—

‘() a member of the European Parliament, House of Commons, House of Lords, Scottish Parliament or Northern Ireland Assembly,’.

Atodlen 1, tudalen 7, ar ôl llinell 11, rhwch—

‘() aelod o Senedd Ewrop, Tŷ'r Cyffredin, Tŷ'r Arglwyddi, Senedd yr Alban neu Gynulliad Gogledd Iwerddon,’.

Dafydd Elis -Thomas

9

Schedule 2, page 8, after line 11, insert—

‘The Clerk must not give effect to those arrangements unless they have first been published on the Assembly’s website.’.

Atodlen 2, tudalen 8, ar ôl llinell 11, rhwch—

‘Rhaid i’r Clerc beidio â rhoi eu heffaith i’r trefniadau hynny oni bai eu bod wedi’u cyhoeddi ar wefan y Cynulliad yn gyntaf.’.

Dafydd Elis -Thomas

6

Section 15, page 5, line 23, after ‘determination’, insert ‘or direction’.

Adran 15, tudalen 5, llinell 24, ar ôl ‘benderfyniad’, rhwch ‘neu gyfarwyddyd’.

Dafydd Elis -Thomas

7

Section 15, page 5, line 27, after ‘determination’, insert ‘or direction’.

Adran 15, tudalen 5, llinell 28, ar ôl ‘benderfyniad’, rhwch ‘neu gyfarwyddyd’.

Dafydd Elis -Thomas

10

Section 15, page 5, line 29, after ‘Measure’, insert ‘and any references to the Assembly or to the Assembly Commission in such a determination or direction are, insofar as is necessary to give effect to this subsection, to be construed as references to the Board’.

Adran 15, tudalen 5, llinell 30, ar ôl ‘hwn’, rhwch ‘a rhaid dehongli unrhyw gyfeiriadau at y Cynulliad neu at Gomisiwn y Cynulliad mewn penderfyniad neu gyfarwyddyd o’r fath fel cyfeiriadau at y Bwrdd, i’r graddau bod angen gwneud hynny er mwyn rhoi effaith i’r is-adran hon’.

Dafydd Elis -Thomas

2

To insert a new Section—

‘() **Independence, openness and inclusiveness**

(1) The Board is not, in the exercise of its functions, to be subject to the direction or control of the Assembly or of the Assembly Commission.

(2) The Board must—

- (a) generally act in an open and transparent manner,
 - (b) publish on the Assembly's website such information as will enable the public to be kept informed as to its activities.
- (3) Subsection (2) does not prevent the Board from considering a matter in private and from maintaining the privacy of its consideration of that matter, if, in the opinion of the Board, the nature of that matter makes it appropriate to do so.
- (4) The Board must, before exercising any of its functions, consult such persons likely to be affected by the exercise of that function as it considers appropriate, having regard to subsection (1).'

I ychwanegu Adran newydd –

'() **Annibyniaeth, bod yn agored ac yn gynhwysol**

- (1) Nid yw'r Bwrdd, wrth arfer ei swyddogaethau, i fod o dan gyfarwyddyd na rheolaeth y Cynulliad na Chomisiwn y Cynulliad.
- (2) Rhaid i'r Bwrdd –
 - (a) weithredu'n gyffredinol mewn modd agored a thryloyw,
 - (b) cyhoeddi ar wefan y Cynulliad y cyfryw wybodaeth a fydd yn caniatáu i'r cyhoedd gael eu hysbysu am ei weithgareddau.
- (3) Nid yw is-adran (2) yn atal y Bwrdd rhag ystyried mater yn breifat na rhag cadw ei ystyriaeth ar y mater hwnnw'n breifat os yw natur y mater hwnnw, ym marn y Bwrdd, yn golygu ei bod yn briodol gwneud hynny.
- (4) Rhaid i'r Bwrdd, cyn arfer unrhyw rai o'i swyddogaethau, ymgynghori ag unrhyw bersonau y mae'n debyg yr effeithir arnynt wrth i'r swyddogaeth honno gael ei harfer ac y mae'r Bwrdd yn credu eu bod yn briodol, o roi sylw i is-adran (1).'

Dafydd Elis -Thomas

3

To insert a new Section –

'() **Annual report**

The Board must, as soon as possible after the end of each financial year, lay before the Assembly an annual report on its activities, including its use of resources, during that financial year.'

I ychwanegu Adran newydd –

'() **Adroddiad blynyddol**

Rhaid i'r Bwrdd, cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, osod gerbron y Cynulliad adroddiad blynyddol ar ei weithgareddau, gan gynnwys sut mae wedi defnyddio adnoddau, yn ystod y flwyddyn ariannol honno.'

Dafydd Elis -Thomas

4

To insert a new Section –

'() **Amendment to the Freedom of Information Act 2000**

- (1) The Freedom of Information Act 2000 (c.36) is amended as follows.

- (2) In Part VI of Schedule 1 (Other Public Bodies and Offices: General), insert, in the appropriate place –

“The National Assembly for Wales Remuneration Board.”.

I ychwanegu Adran newydd –

() Diwygio Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

- (1) Diwygir Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (p.36) fel a ganlyn.
(2) Yn Rhan VI o Atodlen 1 (Cyrrff a Swyddfeydd Cyhoeddus Eraill: Cyffredinol), mewnosoder, yn y lle priodol –

“The National Assembly for Wales Remuneration Board.”.

Dafydd Elis -Thomas

5

To insert a new Section –

() Power to amend Schedule 1

- (1) This section has effect if the Assembly resolves that Schedule 1 be amended so as to –
- (a) add an office or description of person set out in paragraph 1 of that Schedule,
 - (b) remove such an office or description of person, or
 - (c) alter the description of such an office or person.
- (2) The Counsel General may, by order, amend Schedule 1 so as to give effect to such a resolution and must do so as soon as possible after the resolution is passed.
- (3) The power to make an order under subsection (2) is exercisable by statutory instrument.’.

I ychwanegu Adran newydd –

() Pŵer i ddiwygio Atodlen 1

- (1) Mae’r adran hon yn effeithiol os bydd y Cynulliad yn penderfynu y dylid diwygio Atodlen 1 er mwyn –
- (a) ychwanegu swydd neu ddisgrifiad o berson a nodir ym mharagraff 1 o’r Atodlen honno,
 - (b) dileu swydd neu ddisgrifiad o berson o’r fath, neu
 - (c) newid disgrifiad swydd neu berson o’r fath.
- (2) Caiff y Cwnsler Cyffredinol, drwy orchymyn, ddiwygio Atodlen 1 er mwyn rhoi ei effaith i benderfyniad o’r fath a rhaid iddo wneud hynny mor fuan â phosibl ar ôl i’r penderfyniad gael ei wneud.
- (3) Mae’r pŵer i wneud gorchymyn o dan is-adran (2) yn arferadwy drwy offeryn statudol.’.